------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 12 Mai 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda

(264)v4

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Nodi'r Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop – gweithio gyda a chefnogi ein cymuned Lluoedd Arfog heddiw (30 munud)**

**4 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Llysgenhadon Cyllid yr UE – Gohirwyd tan 19 Mai**

**5 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol: Cyflwyno Bil yr Amgylchedd (Cymru) (60 munud)**

**6 Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2015 (15 munud)**
**NDM5754 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o’r Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2015 yn cael ei lunio yn unol â’r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Mawrth 2015.

**Dogfennau Ategol**
Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2015
Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**7 Dadl Cynllun Cyflawni ar gyfer Clefyd yr Afu (60 munud)**
**NDM5753 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi’r Cynllun Cyflawni ar gyfer Clefyd yr Afu, fframwaith tan 2020 ar gyfer GIG Cymru i wella gwasanaethau clefyd yr afu.

Mae’r Cynllun Cyflawni ar gyfer Clefyd yr Afu i’w weld yn:

http://gov.wales/topics/health/nhswales/plans/?skip=1&lang=cy

**Cyflwynwyd y Gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith y gallai'r broses o gyflwyno cynllun cyflenwi clefyd yr iau gael ei llesteirio gan yr heriau ariannol y mae byrddau iechyd lleol yn eu hwynebu o ganlyniad i'r toriadau cyllidebol mwyaf erioed gan Lywodraeth Cymru.

**Gwelliant 2 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi prisiau uned sylfaenol ar gyfer alcohol ar waith cyn gynted ag y bo modd.

**8 Cyfnod pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 13 Mai 2015

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 7 Mai 2015 i'w hateb ar 12 Mai 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)**: Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o effaith canlyniad etholiad cyffredinol y DU ar bolisïau Llywodraeth Cymru? OAQ(4)2262(FM)

**2. Alun Ffred Jones (Arfon)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaed dros y pedair blynedd diwethaf mewn perthynas â strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru? OAQ(4)2264(FM)**W**

**3. Nick Ramsay (Mynwy)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisïau Llywodraeth Cymru i gefnogi ein seilwaith ffyrdd? OAQ(4)2265(FM)

**4. Keith Davies (Llanelli)**: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu prif amcanion y ddarpariaeth o wasanaethau orthodontig yng Nghymru? OAQ(4)2261(FM)**W**

**5. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y disgwyliadau ar gyfer economi wledig Cymru yn y dyfodol? OAQ(4)2268(FM)

**6. Gwenda Thomas (Castell-nedd)**: Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi'r sector manwerthu annibynnol? OAQ(4)2271(FM)**W**

**7. Gwyn Price (Islwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wneud y gorau o'r manteision a fydd yn deillio o gemau Cwpan Rygbi'r Byd 2015 a gaiff eu chwarae yng Nghaerdydd? OAQ(4)2269(FM)

**8. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynllun cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal iechyd llygaid? OAQ(4)2272(FM)

**9. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi pobl hŷn i ddychwelyd i'r gweithle? OAQ(4)2266(FM)

**10. Russell George (Sir Drefaldwyn):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi twf busnesau yn Sir Drefaldwyn? OAQ(4)2263(FM)

**11. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gamau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru i roi hwb i economi Canol De Cymru? OAQ(4)2267(FM)

**12. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Pa asesiad sydd wedi'i wneud o'r effaith y bydd Llywodraeth newydd y DU ei chael ar allu Llywodraeth Cymru i gefnogi busnesau bach yng Nghaerdydd? OAQ(4)2270(FM)

**13. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau iechyd Llywodraeth Cymru ar gyfer Sir Benfro? OAQ(4)2258(FM)

**14. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith y dreth ystafell wely ar bobl Dyffryn Clwyd? OAQ(4)2260(FM)

**15. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael ynghylch dyfodol fformiwla Barnett? OAQ(4)2257(FM)

# Eitem 2

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**

**Dydd Mawrth 19 Mai 2015 a dydd Mercher 20 Mai 2015**

**Toriad: Dydd Llun 25 Mai 2015 – dydd Sul 31 Mai 2015**

**Dydd Mawrth 2 Mehefin 2015 a dydd Mercher 3 Mehefin 2015**

**Dydd Mawrth 9 Mehefin 2015 a dydd Mercher 10 Mehefin 2015**

---

**Dydd Mawrth 19 Mai 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Llysgenhadon Cyllid yr UE (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ynghylch y Strategaeth Dŵr (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Deddfwriaeth Digartrefedd (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ynghylch Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Adroddiad Terfynol (30 munud)
- Dadl Cyfnod 4 ar y Bil Cynllunio (Cymru) (15 munud)
- Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) (60 munud)
- Dadl ar benderfyniad Ariannol y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) (5 munud)

**Dydd Mercher 20 Mai 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar ei ymchwiliad i ganlyniadau addysgol plant o gartrefi incwm isel (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar helpu pobl ifanc i gael gwaith (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl fer - Keith Davies (Llanelli) (30 munud)

**Dydd Mawrth 2 Mehefin 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar Blant a Phobl Ifanc yn Gyntaf: Cyflawni ein Hymrwymiad i Gyfiawnder Ieuenctid yn llwyddiannus (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Y diweddaraf am y Gronfa Buddsoddi i Arbed (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Adroddiad o Gynnydd Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014-2020 (30 munud)
- Y Rheoliadau Di-fwg (Cerbydau Preifat) 2015 (15 munud)

- Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015 (15 munud)
- Rheoliadau Rheoleiddio Tai Rhent Preifat (Gofynion Hyfforddiant Awdurdod Trwyddedu) (Cymru) 2015 (15 munud)

**Dydd Mercher 3 Mehefin 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl Cyfnod 1 ar y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Byron Davies (Gorllewin De Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 9 Mehefin 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Gyflwyno Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) (60 munud).
- Dadl Cyfnod 3 ar Fil Cymwysterau Cymru (180 munud)

**Dydd Mercher 10 Mehefin 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Aled Roberts (Gogledd Cymru) (30 munud)